**ATODIAD 7**

**BALANSAU**

1. Mae awdurdodau lleol angen lefel darbodus o 'gyfalaf gweithredol' i gynnal llif arian digonol ac i gyfarch gwariant annisgwyl. Rhagwelir y bydd gan y Cyngor falansau cyffredinol o tua £7.9m ar ddiwedd y flwyddyn ariannol hon, yn cynrychioli tua 1.3% o wariant refeniw gros y Cyngor.

2. Rydym wedi nodi, ar fwy nag un achlysur, oherwydd yr amgylchiadau tymhestlog y byddwn yn eu hwynebu dros y blynyddoedd i ddod, ei fod yn briodol cadw symiau wrth gefn er mwyn medru ymdrin â phroblemau a allai godi.

3. Nid oes unrhyw beth wedi digwydd yn y cyfamser i newid y farn yma, galw am wasanaethau gofal, digartrefedd a gwastraff yn parhau sydd yn golygu fod y risg yn parhau. Felly, mae'r angen i sicrhau fod gennym falansau priodol i fedru dygymod gydag unrhyw sioc ariannol dal yn berthnasol.

4. **Mae gan y Cyngor nifer o reserfau penodol** sydd wedi eu sefydlu i gwrdd ag anghenion gwariant penodol. Mae'r rhain hefyd yn rhan o gyllideb y Cyngor, wrth gwrs, ac wedi'u craffu yn flynyddol. Rhoddwyd sylw i'r reserfau penodol gan y Cabinet ar 13 Mai 2025 a gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 22 Mai 2025, pan gymeradwywyd i drosglwyddo £3.775 miliwn o gronfeydd amrywiol i'r Gronfa Trawsffurfio, gan hefyd dad ymrwymo gwerth £375,000 o'r Gronfa Trawsffurfio ac hynny ar gyfer ariannu blaenoriaethau'r Cyngor a chyllido bidiau un-tro i'r dyfodol. Rwy'n adolygu lefel y reserfau yma'n barhaus, a **bwriedir cynnal adolygiad eto erbyn Mai 2026**, i ystyried faint o le fydd yna i'r Cyngor newid ei flaenoriaethau y tu mewn i'r reserfau yma.

5. Yn ei adroddiad "Ymdrin â'r Heriau Ariannol sy'n wynebu Llywodraeth Leol yng Nghymru" (2014), mae **Archwilio Cymru wedi datgan** (ym mharagraff 1.8):

   *"Gall cynghorau ddefnyddio cronfeydd wrth gefn i'w helpu i gydbwyso eu cyllidebau lle nad yw cynlluniau arbedion yn cyflawni'r canlyniadau disgwyliedig neu lle mae'r incwm yn llai na'r disgwyl. Fodd bynnag,* ***ni fyddai fel arfer yn briodol cyllido gwariant rheolaidd o gronfeydd wrth gefn.*** *Mae lefel synhwyrol o gronfeydd wrth gefn y gellir eu defnyddio yn elfen allweddol o sefydlogrwydd ariannol; bydd isafswm y lefel briodol yn amrywio gan ddibynnu ar rwymedigaethau hysbys a phosibl awdurdod a'i gynlluniau gwariant. Ceir arwyddion bod ambell gyngor yn dibynnu gormod ar gronfeydd wrth gefn cyffredinol i ymdrin â diffyg yn y gyllideb, yn hytrach na cheisio mabwysiadu dulliau mwy cynaliadwy, sy'n aml yn golygu gwneud penderfyniadau amhoblogaidd."*

6. Ategwyd y neges yma ymhellach gan Archwilio Cymru, sydd wedi adrodd yn Hydref 2020 ar gynaliadwyedd ariannol awdurdodau lleol Cymru. Tra mae cronfeydd wrth gefn

defnyddiadwy Cyngor Gwynedd ymysg chwartel uchaf yr amrediad o awdurdodau lleol Cymru (yn nhermau maint eu cronfeydd defnyddiadwy), **barn Archwilio Cymru yw:**

> *"(9) fod rhai cynghorau mewn sefyllfa well o lawer na'i gilydd i ddod drwy her ariannol fel y pandemig. Enghreifftir hyn yn fwyaf amlwg gan y lefelau amrywiol o gronfeydd wrth gefn defnyddiadwy a oedd yn cael eu dal gan gynghorau", a (18)* ***bod "lefel y cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy sydd ar gael i gyngor yn un o ddangosyddion allweddol cydnerthedd a chynaliadwyedd ariannol".***

Mae copi o'r adroddiad i'w gael yma:
Cynaliadwyedd Ariannol Llywodraeth Leol o ganlyniad i'r Pandemig COVID-19 | Audit Wales

Yn fwy diweddar ym Medi 2025, yn eu hadroddiad "Rheolaeth Strategol ar Falansau a Chronfeydd wrth Gefn" ar reolaeth strategol ar falansau a chronfeydd wrth gefn y Cyngor. Barn Archwilio Cymru oedd fod y Cyngor gyda trefniadau llywodraethu clir a strwythuredig ar gyfer rheoli ei gronfeydd wrth gefn. Ac mai cryfder allweddol yw'r broses "gynaeafu" barhaus, sy'n adolygu cronfeydd wrth gefn ar sawl adeg drwy gydol y flwyddyn.

Mae copi o'r adroddiad i'w gael yma:
Cyngor Gwynedd – Rheolaeth Strategol ar Falansau a Chronfeydd wrth Gefn | Audit Wales

7. Rwy'n argyhoeddedig fod defnydd y Cyngor o falansau yn weithred gwbl briodol.

8. Mae balansau'r Cyngor wedi bod yn arf allweddol. Gan y bydd y Cyngor â balansau o tua £7.9 miliwn, byddwn wedi cadw'r swmp o'r balansau wrth gefn eto, fel eu bod ar gael i 'bontio'r' sefyllfa ariannol os bydd angen.